# PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

**(Port Talbot Civic Centre / Remotely - Hybrid)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 16 Mawrth 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Phillips** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Thomas** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, M.Crowley, N.Goldup-John, J.Henton, J.Jones, C.Lewis, R.Mizen, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds a/ac D.Whitelock |
| **Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:** | A. Amor, M.Caddick a/ac L.Newman |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | I.Guy, H.Lervy, H.Lewis, C.Millis, Thomas, A.Thomas, PWalker, R.Crowhurst, M.Daley, J.Merrifield, Rees a/ac M. Wynne |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr N.Jenkins and J.Hurley |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 7, 8, 9, 10, 13 a 14 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Adam Amor (Aelod Cyfetholedig) - Eitemau 8 a 13 ar agenda Bwrdd y Cabinet – Personol, Cyfarwyddwr Cwmni sydd wedi gweithio i rai o'r gwasanaethau a enwir ac y mae'n gwneud gwaith iddynt ar hyn o bryd. Mae hefyd yn llywodraethwr ysgol ond mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio.

Paul Walker (swyddog) - Eitem 14 ar agenda Bwrdd y Cabinet - Personol, Rhagfarnol (bydd yn gadael yr ystafell pan drafodir yr eitem hon)

Y Cyng. J Henton – Eitem 8, Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo ollyngiad i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. D Whitelock – Eitem 8, Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. N Goldup-John – Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. S Reynolds – Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. P Rees – Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. R Mizen – Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. W Carpenter – Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. M Crowley - Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

M Caddick (Aelod Cyfetholedig) Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. S Renkes, Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

L Newman, Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

Y Cyng. R Phillips, Eitem 8 – Personol, Llywodraethwr Ysgol – Mae ganddo oddefeb i siarad a phleidleisio.

## 3. YR ARGYFWNG COSTAU BYW – Y GEFNOGAETH A GYNIGIR GAN YSGOLION

Darparwyd gwybodaeth i'r aelodau mewn perthynas â'r argyfwng costau byw a’r gefnogaeth a gynigir gan ysgolion, fel y’i dosbarthwyd o fewn yr agenda.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau. Diolchodd aelodau i'r swyddogion am yr wybodaeth a gyflwynwyd o fewn yr adroddiad a nodwyd.

## 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Derbyniadau i Ysgolion (Canlyniadau'r Ymgynghoriad)

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel a nodwyd yn yr agenda a ddosbarthwyd.
Gofynnodd aelodau a oedd swyddogion wedi rhoi unrhyw ystyriaeth bellach i'r gwasanaeth awtomeiddio ar gyfer derbyniadau ysgolion a drafodwyd yn flaenorol â llywodraethwyr ysgol. Cadarnhaodd swyddogion y byddant yn edrych i mewn i hyn, ond nid ydynt wedi gwneud hyn eto.
Yn dilyn craffu roedd yr Aelodau’n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Perfformiad Chwarter 3

Ystyriodd yr aelodau’r wybodaeth fel y’i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd gyda'r agenda.

Holodd yr aelodau ynghylch tudalen 44, C P008, sy'n ymwneud â'r 11 o ddisgyblion sy'n astudio'r Gymraeg. Holodd aelodau a oedd digon yn cael ei wneud i sicrhau bod nifer y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg yn parhau i gynyddu. Dywedwyd wrth yr aelodau fod hyn yn rhan o strategaeth Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Er mwyn i fyfyrwyr astudio yn y Gymraeg mae angen eu bod yn gwneud hyn o oedran cynnar. Mae hyn yn rhan bwysig o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wrth symud ymlaen.

Gofynnodd aelodau am ragor o wybodaeth am y dangosydd coch ar dudalen 48 sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Cadarnhaodd swyddogion mai un mater sy'n achosi rhai problemau yw cael y mewnbwn angenrheidiol gan y gwasanaeth iechyd.

Holodd aelodau ynghylch cymunedau am waith ar dudalen 51 o'r adroddiad. Nododd yr aelodau ddiffyg pobl yn cymryd rhan yn y cynllun. Cadarnhaodd swyddogion fod yr eitem hon yn ymwneud â phobl dros 25 oed ac mae hwn yn gategori oedran anoddach i'w cyrraedd, oherwydd sawl ffactor, cadarnhaodd swyddogion mai un o'r targedau fydd yn cael ei rhoi ar waith fydd ymgysylltu â busnesau fel eu bod yn dweud pa sgiliau y maent yn chwilio amdanynt. Yna gall y cynllun edrych ar sicrhau bod gan y bobl sy'n chwilio am swydd y sgiliau cywir ar gyfer y swydd

Holodd yr aelodau ynghylch CP005 a 006 a gofynnwyd am esboniad am y gostyngiad mewn presenoldeb.  Cadarnhaodd swyddogion fod presenoldeb yn un o'r prif flaenoriaethau. Mae COVID-19 a'r adferiad dilynol wedi cael effaith enfawr ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc, ac ymgysylltiad â'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys y teulu y tu ôl i'r plant ifanc. Hefyd, mae gostyngiad enfawr yng nghyfraddau presenoldeb ddydd Gwener o'r data a ddadansoddwyd.
Presenoldeb yw un o'r targedau o fewn y Cynllun Gwella Corfforaethol a'r Cynllun Gwella Ysgol. Amlinellodd swyddogion y gallai'r dirywiad mewn presenoldeb hefyd gael ei briodoli i'r argyfwng costau byw. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddileu rhai o'r rhwystrau a nodwyd sy'n cyfrannu at lefelau presenoldeb isel.
Amlinellodd swyddogion rai camau a gymerwyd i fynd i'r afael â rhai materion a godwyd, gan bwysleisio y bydd ymdrech ar y cyd dros y 12-18 mis nesaf i gael lefelau presenoldeb yn ôl i'r lefelau cyn y pandemig.

Holodd yr aelodau a allent gael gwybodaeth sy'n ymwneud â phresenoldeb ym mhob ysgol unigol yn hytrach na datganiad cyffredinol sy'n cwmpasu'r holl fwrdeistref. Gellir monitro hyn wedyn wrth symud ymlaen.

Roedd yr aelodau'n hapus iawn i weld bod nifer y priodasau'n uwch na'r DPA amcanol yn yr Orendy ym Mharc Margam.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

Diweddariad ar Brydau Ysgol am Ddim

Amlinellodd swyddogion yr adroddiad a ddosbarthwyd gyda'r agenda. Llongyfarchodd aelodau'r swyddogion am eu gwaith caled wrth gyflwyno'r grwpiau oedran amrywiol ymlaen llaw. Holodd aelodau am y gallu i barhau i gyflwyno'r rhaglen fel yr amlinellir o fewn yr adroddiad. Dywedodd swyddogion eu bod yn deall y sefyllfa ym mhob ysgol ac roeddent yn hyderus y gellir parhau i gyflwyno'r rhaglen yn ôl y bwriad. Mae CBSCNPT yn un o dri awdurdod yng Nghymru sydd ar ar y cam hwn o gyflwyno’u rhaglen ar hyn o bryd.

Holodd yr aelodau a oedd gwerth maeth y prydau'n cael ei fonitro. Cadarnhaodd swyddogion fod ganddynt y dystysgrif cydymffurfio gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi bod CNPT yn dilyn Rheoliadau Iechyd 2013 ar gyfer yr holl brydau sy'n cael eu darparu.

Cydnabu'r aelodau fod recriwtio eisoes wedi digwydd, ond gofynnwyd wrth swyddogion a oedd unrhyw broblemau wedi bod o ran recriwtio ac a allai’r gwaith i ehangu’r rhaglen ymhellach gael ei oedi gan ofynion staffio. Cadarnhaodd swyddogion y bu trafferthion sylweddol wrth recriwtio fodd bynnag roedd ganddynt un a oedd wedi'i goresgyn hyd yma. Cadarnhaodd swyddogion fod pob aelod o staff yn cael ei dalu fel y bo'n briodol am ei rôl a fu’n destun gwerthusiad swydd.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau’r adroddiad.

Dysgu Proffesiynol

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel y’i dosbarthwyd gyda'r agenda. Roedd yr aelodau'n falch o weld bod yr adroddiad wedi nodi ymrwymiad CNPT i ddatblygiad athrawon. Nododd yr aelodau'r ymrwymiad i wneud CNPT yn lle deniadol i weithio ac holwyd am y gefnogaeth a gynigir gan y strategaeth o'i chymharu ag awdurdodau eraill. Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gydag athrawon i benderfynu pa gefnogaeth y mae ei hangen a sut y gellir cynnig hyn.

Holodd yr aelodau hefyd a fu unrhyw newid yn anghenion athrawon ar ôl COVID-19. Cadarnhaodd swyddogion mai nid adfer ar ôl COVID-19 yn  unig sy’n herio athrawon, ond hefyd yr agenda

ddiwygio mewn ysgolion, a dyma lle nodwyd yr angen mwyaf am gefnogaeth.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi mai un agwedd ar ddysgu proffesiynol yw hyn. Mae dysgu pellach yn y Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaeth Cynhwysiad. Mae'r agenda ddiwygio'n cynnwys llawer o agweddau a cheir llawer o gefnogaeth mewn perthynas â hyn ac ADY.

Cadarnhaodd swyddogion nad oes bylchau amlwg yn yr hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i staff addysgu a chadarnhawyd hyn gan benaethiaid yn eu hymateb i'r cwestiwn diweddar a ofynnwyd gan Estyn.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau yr adroddiad.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 2022/23

Gofynnodd aelodau a ellid darparu diweddariad rheolaidd ar bresenoldeb i'r pwyllgor.

Nododd yr aelodau'r Flaenraglen Waith gyda'r ychwanegiad uchod.

## 6. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 7. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**Penderfynwyd:** gwahardd y cyhoedd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

## 8. CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2025

Ystyriodd yr aelodau'r wybodaeth o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan y Cabinet.

Trefniadau arwain – Hamdden Celtic

Ystyriodd yr aelodau'r wybodaeth o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, roedd yr aelodau'n gefnogol o'r argymhelliad i'w ystyried gan y Cabinet.

**CADEIRYDD**